WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

# Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf

**Cyhoeddwyd:** Mawrth 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 147A2013

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Derwyn Owen, Mike Jones, Mandy Townsend a Dave Thomas

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn aros o fewn ei derfyn adnoddau ar gyfer 2012-13, ar ôl cael cadarnhad diweddar gan Lywodraeth Cymru y caiff £10 miliwn o arian anghylchol ychwanegol. Mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig | 12 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu'n sylweddol yn ystod 2012, yn enwedig drwy egluro ac aeddfedu rolau Is-bwyllgorau'r Bwrdd | 13 |
| Dangosodd fy ngwaith archwilio perfformiad fod cynnydd addawol tuag at sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol, er bod nifer o heriau sylweddol yn dal i fodoli | 18 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 24 |
| Ffi archwilio | 25 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2012.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

### Archwilio cyfrifon

5. Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Mae a wnelo'r rhain ag un camddatganiad nas cywirwyd wrth roi cyfrif am ddibrisiant cyflymach (nad effeithiodd ar y llinell waelod), cydymffurfio â Pholisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP), y broses o gyfrifo rhwymedigaethau diwedd blwyddyn ar gyfer hawliadau gofal iechyd parhaus, a gwelliannau i'w gwneud wrth ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS).
6. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw at y dyraniad adnoddau ychwanegol a gafodd y Bwrdd Iechyd, yn bennaf er mwyn ei alluogi i gyflawni ei darged terfyn adnoddau ariannol.
7. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2011-12, gyda chymorth dyraniad adnoddau ychwanegol o £4 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012. Daeth yr arian ychwanegol a gafwyd o gronfa 2012-13 a chaiff ei ddychwelyd drwy leihau'r adnoddau a ddyrennir ar gyfer y flwyddyn honno.
8. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliadau canlynol:
   - mae amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd yn lleihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd ei systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod rhai meysydd i'w gwella.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei fframwaith sicrwydd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad o feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar y casgliadau canlynol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn aros o fewn ei ddyraniadau adnoddau ar gyfer 2012-13, ar ôl cael cadarnhad diweddar gan Lywodraeth Cymru y caiff £10 miliwn o arian anghylchol ychwanegol. Caiff cynlluniau eu gwneud ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig

**10.** Mae adroddiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'n gywir y trafodion yn ystod y flwyddyn.

**11.** Nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg cyson o £10 miliwn ar gyfer 2012-13, tan fis Rhagfyr 2012 pan gafodd dyraniad adnoddau ychwanegol yn cyfateb i'r swm hwn ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru. Yn ei gynllun ariannol mewnol ar gyfer 2012-13, targed gwreiddiol y Bwrdd Iechyd oedd mantoli'r gyllideb erbyn ail chwarter 2013-14, ond mae bellach yn nodi na fydd hyn yn digwydd tan y trydydd chwarter.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu'n sylweddol yn ystod 2012, yn enwedig drwy egluro ac aeddfedu rolau Pwyllgorau'r Bwrdd

**12.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei fod ar daith aeddfedu ac mae wedi datblygu rolau ei Bwyllgorau yn 2012. Mae amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei newid yn sylweddol ac mae'n aeddfedu i gefnogi sicrwydd effeithiol y Bwrdd. Datblygodd gwybodaeth reoli yn sylweddol eleni, ond rhaid iddi barhau i esblygu a chryfhau. Mae trefniadau gwybodeg diwygiedig bellach ar waith, yn dilyn rhai pryderon difrifol am gywirdeb data, gyda strwythurau newydd o ran gwybodaeth am berfformiad yn dal i ddatblygu.

### Dangosodd fy ngwaith archwilio perfformiad fod cynnydd addawol tuag at sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**13.** Mae fy ngwaith perfformiad arall yn amlygu cynnydd addawol o ran datrys materion a etifeddwyd oddi wrth sefydliadau blaenorol, yn arbennig o ran darparu gwasanaethau a chyflawni gwelliant ar y rheng flaen. Roedd yr ailstrwythuro mewnol hefyd yn nodwedd gadarnhaol yn fy nghanfyddiadau eraill, gan gydnabod yn glir nad yw'r patrwm presennol o ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy yn glinigol yn sgil arbenigo meddygol cynyddol, ac arwyddion cynnar gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n dod i'r amlwg, Yn fwy penodol, nodais y canlynol:

- bu datblygiadau cadarnhaol yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn dilyn asesiadau strwythuredig blaenorol ac er bod angen i rai meysydd gael eu datblygu ymhellach o hyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hynny ac yn gweithio tuag at eu datrys;
- er bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth ac ymrwymiad clir mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i drawsnewid gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig, mae galw cynyddol, diffyg adnoddau a heriau parhaus wrth addysgu'r cyhoedd am y defnydd priodol o wasanaethau a hunanofal yn cyfyngu ar gynnydd;
- gwelir peth cryfder ym maes rheoli'r gweithlu, ond erys heriau allweddol o ran salwch, staff meddygol a datblygu cynlluniau gweithlu hirdymor sy'n gynaliadwy yn ariannol er mwyn cefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau;
- mae ymrwymiad cadarn a dull rhagweithiol, wedi'i reoli'n dda, o gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid yn amlwg a rhydd sail gadarn i gyflawni'r newidiadau sylfaenol i wasanaethau sydd eu hangen;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau monitro'r broses o weithredu argymhellion drwy ei strwythurau.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Tîm Gweithredol

**14.** Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Mawrth 2013. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk)).

**15.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**16.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Bwrdd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Rhagfyr 2012.

**17.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; ac
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**18.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**19.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**20.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**21.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad sylweddol ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**22.** Yn fy marn i, roedd y wybodaeth a roddwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn hawdd ei deall. Llwyddwyd i gynnal ansawdd da y datganiadau ariannol drafft eleni.

**23.** Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin 2012. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Triniaeth Gyfrifyddu Mynegeio Dibrisiant Cyflymach o ran dau Ased. | Nododd ein harchwiliad ddau ased anghyfredol a oedd yn cael eu dibrisio ar raddfa gyflymach. Roedd gwerth gros yr asedau hynny wedi cael ei fynegeio'n gywir ond nid oedd y balans dibrisio cronedig a ddygwyd ymlaen wedi cael ei fynegeio. Felly, gorddatganwyd mynegeio bron £0.43 miliwn. Yn dilyn hynny, cafodd yr asedau eu dibrisio er mwyn cyrraedd eu gwerth llyfr net cywir. O ganlyniad, cafodd y taliad dibrisio cyflymach a'r arian dibrisio cyflymach ill dau eu gorddatgan tua £0.43 miliwn. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) | Mae elfen o ansicrwydd yn perthyn i'r perfformiad a gofnodwyd yn erbyn targed PSPP.<br>Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn 'dechrau'r cloc' o ran perfformiad talu anfonebau pan ddaw anfoneb i law'r 'Adran Caffael i Dalu'. Dywed Llywodraeth Cymru y dylai'r cloc ddechrau pan fydd y Bwrdd yn derbyn yr anfoneb gyntaf. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol a'n profion ni'n hunain wedi nodi bod rhai anfonebau yn cael eu hanfon i adrannau eraill. Felly, nid yw bob amser yn bosibl nodi'r dyddiad dechrau cywir. Mae'n bosibl felly fod perfformiad PSPP y Bwrdd wedi'i orddatgan.<br>Ar gyfer anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro'n ddiweddar y dylai'r cloc ddechrau pan fydd y Bwrdd yn derbyn anfoneb, ei stopio pan nodir bod anghydfod yn ei gylch ac yna ei ailddechrau pan gaiff yr anghydfod hwnnw ei ddatrys. Ar hyn o bryd nid yw'r Bwrdd yn stopio'r cloc pan fydd yn datrys anghydfod. Felly, mae'n debygol bod perfformiad PSPP wedi'i danddatgan mewn perthynas â'r agwedd hon.<br>Dylai'r Bwrdd ystyried sut y gellid rhoi systemau ar waith i ddatrys y materion hyn (yn enwedig nodi'r dyddiad y daw anfoneb i law). |

**24.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2012, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**25.** Cafodd fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth ei gwblhau ym mis Tachwedd 2012. Nid oedd unrhyw faterion yn codi y mae'n ofynnol i mi eich hysbysu amdanynt (nac ychwaith yr wyf yn dymuno eich hysbysu amdanynt).

## Mae amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd yn lleihau'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol ac roedd ei systemau ariannol pwysig yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu fel y bwriadwyd er bod rhai meysydd i'w gwella.

**26.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r systemau ariannol a'r rheolaethau mewnol er mwyn asesu a ydynt yn rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol.

**27.** Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r meysydd gwaith a'r canfyddiadau allweddol, yr wyf wedi'u cynnwys mewn nifer o adroddiadau gwahanol a'u trafod â'r Pwyllgor Archwilio.

## Arddangosyn 2: Systemau a rheolaethau ariannol

| Maes a adolygwyd | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Archwiliad mewnol | Cydymffurfiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol â gofynion Cod Ymarfer Archwilio Mewnol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Fodd bynnag, nodwn fod y cwmpas yn sylweddol is na llawer o Fyrddau Iechyd eraill. O ganlyniad, cyfyngir ar ei allu i adolygu meysydd gwasanaeth a chlinigol ehangach. |
| Rheolaeth gyllidebol | Rhoddodd ein hasesiad o system y Bwrdd yn gyffredinol sicrwydd i ni fod y system rheolaeth gyllidebol yn effeithiol o ran nodi gwall neu hepgoriad perthnasol posibl, gan arwain at ei gywiro. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) | Ni lwyddodd y Bwrdd i gwblhau AGS drafft yn unol â'r amserlen ac roedd angen gwneud diwygiadau mawr iddo cyn ei gymeradwyo.<br>Mae'n ddealladwy y gall y gwaith o lunio AGS manwl gymryd amser hir. Fodd bynnag, byddai arfer gorau yn awgrymu, i raddau helaeth, y dylai ddeillio o'r Fframwaith Llywodraethu sydd eisoes ar waith yn naturiol. Deallwn fod y Bwrdd yn cwblhau'r trefniadau hyn a allai hwyluso'r broses o lunio AGS yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu y gellir cwblhau'r ddogfen yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd fersiynau a gyflwynir i'w harchwilio. |
| Rheolaethau cyffredinol Technoleg Gwybodaeth | Roedd rheolaethau o fewn y brif system gyfrifyddu yn gweithredu yn ôl y bwriad ond dylai'r Bwrdd sicrhau bod gan ei adrannau gynlluniau parhad busnes cyfredol. |
| Systemau ariannol pwysig | Roedd gan systemau ariannol pwysig y Bwrdd reolaethau allweddol mewnol priodol ar waith ac roeddent yn gweithredu'n foddhaol ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella yn enwedig mewn perthynas â chyfrifiadau diwedd blwyddyn o rwymedigaethau Gofal Iechyd Parhaus. |
| Atal a chanfod twyll a llygredd | Mae nifer diwrnodau arfaethedig y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol ar gyfer gwaith rhagweithiol yn dal i fod yn is na'r hyn a argymhellir gan y Gwasanaeth Atal Twyll Cenedlaethol. O ganlyniad mae'n dibynnu ar waith adweithiol yn hytrach na gwaith rhagweithiol. Mae'r Bwrdd yn parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ac mae angen iddo orffen y gwaith hwn yn y 12 mis nesaf. |

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2011-12, ond dim ond oherwydd arian anghylchol diwedd blwyddyn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

**28.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, roedd gan y Bwrdd Iechyd wariant net o £597.2 miliwn. Ei derfyn adnoddau terfynol oedd £597.2 miliwn, a oedd yn cynnwys y £4 miliwn a gafodd ym mis Mawrth 2012 a ddaeth o'i ddyraniad ar gyfer 2012-13. Byddai'r Bwrdd Iechyd wedi mynd uwchlaw ei derfyn adnoddau oni bai am y dyraniad ychwanegol hwnnw. O ganlyniad, er na roddais farn archwilio amodol, cyflwynais adroddiad sylweddol ar y cyfrifon.

**29.** Er i'r dyraniad ychwanegol alluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei Derfyn Adnoddau ar gyfer 2011-12, roedd hefyd yn golygu bod yr her ariannol ar gyfer 2012-13 hyd yn oed yn fwy.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**30.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig gyda phwyslais penodol ar gadernid fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol;
- gwaith defnydd penodol o adnoddau mewn perthynas â gofal heb ei drefnu, rheoli cyflyrau cronig, cynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**31.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn aros o fewn ei derfyn adnoddau ar gyfer 2012-13, ar ôl cael cadarnhad diweddar gan Lywodraeth Cymru y caiff £10 miliwn o arian anghylchol ychwanegol. Caiff cynlluniau eu gwneud ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig

### Mae adroddiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'n gywir y trafodion yn ystod y flwyddyn

**32.** Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno ffurflenni monitro misol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi ei sefyllfa ariannol bob mis, gyda rhagamcan o'r sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddir gwybod am y sefyllfa ariannol i bob cyfarfod o'r Bwrdd hefyd.

**33.** Mae gwaith mewn perthynas â rheolaeth gyllidebol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cadarnhau bod y ffurflenni monitro misol ac adroddiadau'r Bwrdd yn dangos yn gywir y trafodion incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed o ddechrau trydydd chwarter 2013-14 i gyflawni balans ariannol cylchol

**34.** Yng nghynllun ariannol interim y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13 a gyflwynwyd i ran anghyhoeddus cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2012, amcangyfrifwyd diffyg ariannol o £28.4 miliwn (gan gynnwys effaith y £4 miliwn a ddygwyd ymlaen yn 2011-12 a ddisgrifir uchod). Rhoddodd y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i geisio ateb yr her ariannol hon, a oedd yn cynnwys:

- £13.5 miliwn o dargedau effeithlonrwydd i Gyfarwyddiaethau (er enghraifft targed o 3 y cant i gyfarwyddiaethau clinigol a 10 y cant i wasanaethau cymorth corfforaethol);
- £5.15 miliwn o fesurau effeithlonrwydd ar ben y targedau cyffredinol uchod (er enghraifft, gostwng lefelau salwch, gostwng lefelau rhagnodi mewn gofal sylfaenol a gwella patrymau roster a sifftiau);
- £2.75 miliwn o waith ailgynllunio gwasanaethau er mwyn lleihau hyd arhosiad, cynyddu cyfraddau achosion dydd a chynyddu'r defnydd o gyfleusterau iechyd yn y gymuned;
- £2.75 miliwn o arbedion rhesymoli safleoedd;
- £4.25 miliwn yn deillio o drefniadau comisiynu a chontractio gwell.

**35.** Er gwaethaf y targedau hyn, ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol, nododd y Bwrdd Iechyd orwariant rhagamcanol cyson o tua £10 miliwn.

**36.** Ar 11 Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael dyraniad anghylchol ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer 2012-13 er mwyn ei alluogi i gynnal safonau ansawdd a pherfformiad priodol a mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn rhagamcanu y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13.

**37.** Hyd yn hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar y byrdymor yn ei gynlluniau ariannol interim a hynny'n ymwybodol. Bellach, rhaid iddo weithredu cynllun ariannol sy'n canolbwyntio'n fwy ar y tymor canolig.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu'n sylweddol yn ystod 2012, yn enwedig drwy egluro ac aeddfedu rolau is-bwyllgorau'r Bwrdd

### Mae'r newidiadau sefydliadol a weithredwyd yn 2011 yn helpu i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd

**38.** Yn 2011, cydnabûm fod nifer o newidiadau sefydliadol yn digwydd yn sgil penodi Prif Weithredwr newydd a hynny ar ffurf diwygio rolau a chyfrifoldebau rhwng y tîm gweithredol a chyflwyno Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Bwrdd a fyddai'n effeithio ar strwythurau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Nod y newidiadau hyn oedd gwella ei strwythur sefydliadol a'i brosesau sicrwydd ac ansawdd er mwyn cyflawni mwy o

eglurder, craffu a thryloywder. Yn ystod 2012, roedd y newidiadau hyn i'w gweld yn datblygu'n dda ac roedd y trefniadau newydd yn dechrau aeddfedu ac ymsefydlu. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau o ran y fframwaith sicrwydd o hyd a sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn cael eu mabwysiadu'n llawn ar draws y Bwrdd Iechyd.

**39.** Mae'r Bwrdd wedi cynnal hunanasesiad gonest o'i aeddfedrwydd ac wedi ei rannu'n agored â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'i ymrwymiad newydd i ymgysylltu â chraffu allanol mewn modd agored a thryloyw.

**40.** Mae fy archwilwyr wedi nodi parodrwydd ymhlith aelodau'r Bwrdd i drafod materion heriol yn agored yng nghyfarfodydd Pwyllgorau. Datblygiad cadarnhaol arall a nodwyd gan fy nhîm archwilio oedd yr her gadarn ond cefnogol a ddangoswyd gan Aelodau Annibynnol, yng nghyfarfodydd llawn y Bwrdd ac yng nghyfarfodydd Pwyllgorau.

**41.** Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi dangos bod gan y Bwrdd a'i bwyllgorau drefniadau sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer cael y sicrwydd angenrheidiol bod gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni. Nododd yr archwilwyr y materion allweddol canlynol hefyd o ran gwaith pwyllgorau amrywiol y Bwrdd:

- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn cefnogi fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd yn effeithiol ac yn gwneud cysylltiadau rhwng pwyllgorau'r Bwrdd; fodd bynnag, gallai ei rôl gael ei datblygu ymhellach er mwyn helpu'r Bwrdd i 'driongli' materion sy'n gymwys i'w holl gyfrifoldebau.
- Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn aeddfedu'n gyflym, gan graffu ar yr uwch dîm rheoli a'i herio'n effeithiol, ac yn fwy diweddar mae wedi dechrau galw Cyfarwyddiaethau sy'n perfformio'n wael i mewn.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn symud mewn cyfeiriad cadarnhaol, er bod cyfleoedd ar gael i atgyfnerthu ei drefniadau craffu mewn nifer fechan o feysydd, er enghraifft, wrth geisio'r sicrwydd a roddir gan Bwyllgorau eraill y Bwrdd ac o'r gwaith archwilio clinigol a wneir o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Erys rhai heriau o ran rheoli agenda fawr y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, yn dilyn adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: dylid ailystyried y cydbwysedd rhwng adolygu'r manylion a'r gallu i drafod materion allweddol, a gellid ystyried y defnydd o waith is-bwyllgorau er mwyn rhoi sicrwydd mewn ffordd debyg i'r Bwrdd ei hun.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ystyried sut y gwnaiff gydymffurfio â'r arferion disgwyliedig a nodir yn Llawlyfr newydd y Pwyllgor Archwilio ac mae'n disgwyl i'w drefniadau pwyllgor diwygiedig barhau'n addas, ond bydd angen iddo brofi'r dybiaeth hon.

**42.** Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnal ymweliadau arsylwi a sesiynau 'mynd ar grwydr' strwythuredig yn ddirybudd yn rheolaidd, yn ogystal â mentrau 1000 o Fywydau a Mwy, sy'n cwmpasu amrywiaeth cytbwys o faterion yn cynnwys urddas a glendid. Rhydd y rhain sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd drwy adroddiadau llafar a chryno ac arweinyddiaeth weladwy ar draws y Bwrdd Iechyd. Nododd fy archwilwyr fod y rhain wedi cael eu hymestyn i gwmpasu risgiau ychwanegol yn ystod 2012, ac roedd gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn rhan o'r rhaglen.

**43.** At hynny, mae proffil profiadau cleifion yn y Bwrdd yn dda, gyda Straeon Cleifion yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ac adroddiadau sy'n crynhoi pryderon, hawliadau, digwyddiadau a gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnwys ar agenda'r Bwrdd.

**44.** Mae'r pryder a oedd gennyf yn 2011 ynghylch dyblygiad posibl gwaith y Tîm Trawsnewid[1] gan Bwyllgorau'r Bwrdd a rheolwyr gweithredol wedi cael ei ddatrys drwy gydweithio agos ac integreiddio ffrydiau gwaith yn dda. Mae strwythurau a threfniadau gweithredol diwygiedig ar waith ac maent yn dechrau ymsefydlu. Caiff y Prif Swyddog Gweithredu ei gefnogi gan ddirprwy ar bob safle acíwt; ac mae gan y Tîm Trawsnewid adnoddau dynodedig; mae'r ddau dîm yn gweithio i gefnogi Cyfarwyddiaethau a chyflwyno gwelliannau i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a thargedau ariannol. Mae'r fethodoleg o ran amseroedd gweithredu yn seiliedig ar 'gylchoedd gwella' 60 diwrnod. Caiff y cylchoedd gwella hyn eu defnyddio mewn modd hyblyg ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gwmpasu 41 o ardaloedd hyd yma, ac maent yn arwain at welliannau ym meysydd cyllid a phrosesau. Elfen gadarnhaol arall yw'r ffaith bod Aelodau Annibynnol yn cael eu cynnwys fel cadeiryddion byrddau prosiect ar gyfer y cylchoedd, gan olygu bod yr hyn a wneir o fewn y Bwrdd Iechyd i newid gwasanaethau a chyflawni arbedion yn cael ei weld yn glir gan y Bwrdd.

### Mae amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei newid yn sylweddol ac mae'n aeddfedu i gefnogi sicrwydd effeithiol y Bwrdd

**45.** Mae safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion hanfodol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus yn effeithiol ac y defnyddir adnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Fel rhan o'm gwaith ar yr asesiad strwythuredig, adolygodd fy nhîm archwilio'r amgylchedd rheolaeth fewnol, er mwyn sicrhau y gellir arddangos trefniadau llywodraethu da ar draws amrywiaeth eang o feysydd allweddol.

**46.** Rwyf wedi adolygu systemau rheoli risg ar lefel gorfforaethol gan fod adolygiad llywodraethu AGIC a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod hyn yn faes i'w wella'n flaenorol. Mae'n amlwg o'm gwaith fod trefniadau rheoli risg wedi cael eu mireinio a'u bod yn dechrau aeddfedu. Yn arbennig, mae'r gofrestr risg gorfforaethol bellach yn gliriach o ran y ffordd y mae'n disgrifio risgiau, gyda rheolaethau allweddol, risgiau sy'n weddill a'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar bob risg wedi'u hamlinellu yn erbyn pob risg. Mae polisïau a gweithdrefnau rheoli risg clir ar waith a chred uwch reolwyr ac Aelodau Annibynnol eu bod yn gweld y risgiau sefydliadol allweddol a'u bod yn cael eu cyfleu a'u cyfeirio'n briodol. Ar lefel gorfforaethol, mae nifer o Bwyllgorau'r Bwrdd yn craffu ar y gofrestr risg, er enghraifft mae'r Pwyllgor Risg Gorfforaethol yn craffu ar risgiau iechyd a diogelwch, a thân, tra bod y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn archwilio risgiau clinigol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu cwmpas cynhwysfawr risgiau ar draws strwythur y pwyllgorau. Mae'r sefydliad cyfan yn defnyddio system electronig DATIX ac mae'r sawl sy'n ei defnyddio wedi cael hyfforddiant. Mae'r gofrestr risg hefyd yn cael ei defnyddio i nodi a monitro'r rhwystrau i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd fel rhan o ddulliau craffu ac adolygu

[1] Diffinnir trawsnewid fel proses adfer ariannol ac yn gyffredinol ym maes gofal iechyd adfer perfformiad sefydliad sydd wedi bod yn perfformio'n wael am gyfnod estynedig.

rheolaidd. Mae hyn oll yn welliant mawr, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith o hyd er mwyn cael sicrwydd bod y trefniadau rheoli risg newydd wedi cael eu hymgorffori'n ddigonol ar y lefel weithredol hon.

**47.** Ceir strategaeth archwilio clinigol ac effeithiolrwydd clinigol glir ynghyd â chynllun archwilio clinigol blynyddol. Mae hyn yn cwmpasu'r prif archwiliadau cenedlaethol gofynnol ac archwiliadau i roi sicrwydd ar risgiau allweddol a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, yn unol â Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio, caiff y cynllun archwilio clinigol blynyddol ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio.

**48.** Er bod y canfyddiadau uchod yn ddatblygiadau cadarnhaol, mae angen i nifer o agweddau allweddol eraill ar reolaeth fewnol gael eu datblygu ymhellach er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu mwy effeithiol:

- Oherwydd canllawiau hwyr, ac yn gyffredin â byrddau iechyd eraill, nid oedd y modd yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i lunio'r AGS yn gadarn yn 2012 (Arddangosyn 2). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau ar gyfer 2013. Rhaid i'r broses hon hefyd ategu'r gwaith o lunio'r Datganiad Ansawdd Blynyddol newydd. Mae angen i'r AGS fod yn adlewyrchiad gonest a chlir o system lywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Yn hollbwysig, ni ddylai fod yn rhywbeth a wneir ar ddiwedd y flwyddyn, yn hytrach dylai ddatblygu drwy gydol y flwyddyn a deillio o drefniadau sicrwydd sy'n bodoli eisoes. Rhan allweddol o'r fath sicrwydd yw profi rheolaethau bob blwyddyn. Bydd fy archwilwyr yn parhau i adolygu'r maes hwn yn 2013.
- Mae trefniadau i gyfeirio digwyddiadau clinigol neu bryderon difrifol at y Bwrdd ar waith, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor o waith i hyrwyddo trefniadau chwythu'r chwiban er mwyn creu hinsawdd agored lle gall staff deimlo'n gyfforddus yn codi pryderon drwy gyfryngau priodol.
- Cyfleu'n glir elfennau allweddol y fframwaith sicrwydd i staff er mwyn helpu i atgyfnerthu ac ymgorffori trefniadau newydd a sicrhau bod dealltwriaeth gynhwysfawr a chyson ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae angen atgyfnerthu trefniadau archwilio mewnol ac atal twyll er mwyn cefnogi gofynion llywodraethu ehangach (Arddangosyn 2). Yn arbennig, er bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal cwmpas craidd, adnoddau cyfyngedig sydd ganddo sy'n cyfyngu ar ei allu i archwilio trefniadau eraill.

## Datblygodd gwybodaeth reoli yn sylweddol eleni, ond byddai cynyddu'r amrywiaeth o wybodaeth a sut y'i cyflwynir yn gwella sicrwydd y Bwrdd ymhellach

**49.** Canolbwyntiodd fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig eleni ar pa un a all y Bwrdd Iechyd a'i is-bwyllgorau gael gafael ar y wybodaeth reoli berthnasol i gynllunio, gwneud penderfyniadau ac ategu trefniadau craffu a sicrwydd effeithiol i'r bwrdd. Nodais fod y Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei ddull o gynhyrchu a rheoli gwybodaeth yn 2012 yn gyfan gwbl. Gyda Chyfarwyddwr Cynllunio newydd a strwythurau cwbl ddiwygiedig i rannu gwaith craffu a gwaith cyflawni, mae adroddiadau ar berfformiad yn esblygu bob mis.

**50.** Mae datblygiad iteraidd gwybodaeth reoli mewn ymateb i ofynion y Bwrdd ac erbyn diwedd 2012 roedd wedi arwain at greu dangosfwrdd perfformiad. Mae'r dangosfwrdd yn crynhoi perfformiad ar draws amrywiaeth o flaenoriaethau Haen un, dangosyddion lleol, ac mae bellach yn cynnwys rhai metrigau ansawdd a gofal sylfaenol, i gyd ar gerdyn sgorio coch/melyn/gwyrdd. Ategir y dangosfwrdd gan ddadansoddiad manwl ar gyfer pob dangosydd, sydd nid yn unig yn olrhain perfformiad dros amser yn erbyn y targed, ond mewn sawl achos mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth feincnodi. Yn ogystal, mae'r rhaniad clir rhwng egluro'r sefyllfa sydd ohoni a'r camau a gymerir yn gwella'r broses ddehongli. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael y lefel gywir o wybodaeth; nid yw wedi'i gorgrynhoi ac mae digon o fanylion ar gael i wneud penderfyniadau mewn modd effeithiol ac amserol.

**51.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddatblygu ei ddangosfwydd ymhellach ac yn ddiweddar edrychodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar rai o'r metrigau ansawdd a gofal sylfaenol ychwanegol y byddai'n hoffi eu gweld yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith datblygu hwn, disgwyliaf i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â'r bylchau canlynol a nodwyd gan archwilwyr:

- Gall oedi wrth godio a chasglu data o rai systemau bwydo effeithio ar amseroldeb adroddiadau a'r gallu i ddatblygu systemau rhybuddion cynnar angenrheidiol.
- Er mwyn atgyfnerthu ymhellach allu'r Bwrdd i gynllunio, gwneud penderfyniadau a chraffu, a chefnogi'r newid i adroddiadau mwy cynhwysfawr ar holl gyfrifoldebau'r Bwrdd, mae angen sicrhau bod mwy o'r canlynol:
  - gwybodaeth am ansawdd gofal, canlyniadau, a'r sylw a roddir i foddhad defnyddwyr a phrofiad cleifion ar lefel Bwrdd;
  - gofal wrth gydgrynhoi data, oherwydd gall hyn gelu amrywiad rhwng y ddau safle acíwt a rhwng ysbytai cymunedol;
  - adrodd ar effeithiolrwydd y camau gwella a gymerir (mae Iechyd Meddwl yn enghraifft dda o sut y gellir gwneud hyn);
  - mae angen i'r dadansoddiad thematig o gwynion/digwyddiadau (a'r gwersi a ddysgwyd) gael ei gynnwys ar y dangosfwrdd wrth iddo dyfu i gynnwys metrigau ansawdd.
- Rhaid i'r defnydd o grynodebau a delweddau i helpu i ddehongli gwybodaeth, (meincnodi a dadansoddi tueddiadau a welir ar y dangosfwrdd ac yn yr adroddiad ategol) gwmpasu adroddiadau cyllid ac ansawdd hefyd.

## Mae trefniadau gwybodeg diwygiedig bellach ar waith, yn dilyn rhai pryderon difrifol am gywirdeb data rhestrau aros a gofnodwyd

**52.** Codais bryderon ynghylch cyflymdra gwaith datblygu ac adnoddau gwybodeg yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011. Rhannwyd y pryderon hyn gan yr uwch dîm rheoli ar ei newydd wedd. Yn ystod 2012, nododd gwaith gan yr Uned Cyflawni a Chefnogi bryderon newydd o ran data anghyson ar restrau aros a gofnodwyd. Yn dilyn yr adolygiadau mewnol angenrheidiol ac ymchwiliadau i'r pryderon hyn, mae rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â gwybodaeth am berfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd

wedi cael eu diwygio'n gynhwysfawr, fel y mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer casglu a rheoli data ar restrau aros. Rhydd 'adolygiad diwydrwydd dyladwy' diweddar o'r broses newydd, dan arweiniad uwch reolwr profiadol o Loegr, beth sicrwydd fod y prosesau newydd yn mynd i'r afael â gwendidau yn y trefniadau blaenorol. Fodd bynnag, bydd angen cynnal rhagor o brofion annibynnol yn 2013 er mwyn rhoi sicrwydd llawn bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn ddigonol.

**53.** Cynhaliodd fy nhîm archwilio archwiliad lefel uchel o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod y data a gynhyrchir ganddo yn ddibynadwy ac yn gywir. Er na cheisiodd y gwaith hwn ddilysu ansawdd setiau data na dangosyddion perfformiad penodol y GIG, gwnaeth adolygu data demograffig cleifion sylfaenol er mwyn canfod faint o wybodaeth ddyblyg sydd ar y systemau Gweinyddu Cleifion a Radioleg a faint o wybodaeth sydd ar goll. I raddau helaeth, roedd y gwaith hwn yn dibynnu ar wybodaeth a roddwyd gan staff o fewn y tîm perfformiad lle'r oedd pryderon ynghylch data anghyson ar restrau aros wedi'u crynhoi. O ganlyniad, ni allaf gymryd sicrwydd llawn o'r dystiolaeth a roddwyd ac felly cynigiaf wneud gwaith newydd yn 2013 i ailbrofi trefniadau ansawdd data.

**54.** Yn ystod 2012, bûm hefyd yn archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithredu canllawiau Caldicott ar gyfrinachedd data cleifion. Ar y cyfan, ymddengys fod trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran gofynion Caldicott yn ddigonol, hynny yw ceir trefniadau rheoli diffiniedig a ategir gan bolisïau a gweithdrefnau, o dan arweinyddiaeth Gwarcheidwad Caldicott. Fodd bynnag, nodais fylchau rhwng timau corfforaethol a gweithredol yn deillio o'r ffaith bod y Tîm Gwybodaeth yn y pair. Fodd bynnag, cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau i gau'r bwlch hwn ar unwaith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r angen i wella hyfforddiant staff: ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer hysbysu cleifion am y defnydd a wneir o'u gwybodaeth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a phwy all ei gweld. Yn ogystal, er bod y Bwrdd Iechyd yn deall ei gyfrifoldebau o ran cyfrinachedd gwybodaeth a'i fod wedi nodi gwybodaeth 'risg uchel' am gleifion a staff; mae angen i wybodaeth arall sy'n destun egwyddorion Caldicott gael ei hasesu.

## Dangosodd fy ngwaith archwilio perfformiad fod cynnydd addawol tuag at sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol, er bod nifer o heriau sylweddol yn dal i fodoli

### Bu datblygiadau cadarnhaol yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn dilyn asesiadau strwythuredig blaenorol ac er bod angen i rai meysydd gael eu datblygu ymhellach o hyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn gweithio tuag at eu datrys

**55.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi dangos mai prin fu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn amrywiaeth o faterion a nodwyd gan archwilwyr mewn blynyddoedd blaenorol. Mae angen i'r materion a archwilir yn Arddangosyn 3 gael eu hystyried yng nghyd-destun rhaglen datblygu sefydliadol parhaus sylweddol, a roddwyd yn ei lle gan y Prif Weithredwr, sydd wedi bod yn y swydd ers mis Chwefror 2011. Mae'r camau a gymerir yn gadarnhaol, ond erys rhai heriau sylweddol ac mae'n hanfodol bod y newidiadau cadarnhaol hyn yn cael eu profi er mwyn sicrhau bod

newid sefydliadol yn cael ei ymgorffori ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei adlewyrchu ar y rheng flaen. Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i gadw llygad ar yr agenda ddatblygu hon ac yn cynnal rhai profion ar feysydd penodol yn 2013.

**56.** Cafodd Adolygiad Llywodraethu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei gyhoeddi yn 2012 a nododd nifer o bryderon penodol, yn enwedig o ran proses weithredu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, llywodraethu clinigol ac ymdrin â phryderon a hawliadau. Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan AGIC. Fodd bynnag, bydd AGIC yn cynnal ei gwaith ei hun er mwyn pennu'r cynnydd a wneir yn erbyn ei chynllun gweithredu a byddaf yn cydweithio â hi er mwyn sicrhau bod y gwaith dilynol yn cael ei gydgysylltu'n briodol.

Arddangosyn 3: Mynd i'r afael â materion a nodwyd yn fy ngwaith Asesu Strwythuredig blaenorol

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| Cyfeiriad strategol a strwythur sefydliadol | Nododd fy asesiadau strwythuredig blaenorol fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd ati i ailgynllunio gwasanaethau ac ymgysylltu â'r gymuned mewn modd strwythuredig, ystyriol a chynhwysol. Ar y cyfan, bu'r broses o ddatblygu cynlluniau ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau yn arafach na'r disgwyl, oherwydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod ystyried y cyd-destun rhanbarthol. Mae cynigion ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau rhanbarthol ar y cam ymgysylltu a bydd ymgynghoriad ffurfiol bellach yn cael ei gynnal yn 2013.<br>Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu heriau wrth gynnal gwasanaethau presennol. Er enghraifft, yn ystod hydref 2011 bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gau'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Cwm Rhondda dros dro fel bod staff yn gallu cynnal gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Er bod y problemau staffio sylfaenol wedi peri pryder ers tro, nid ydynt yn unigryw i Gwm Taf.<br>Yn dilyn gwaith ailstrwythuro mewnol, a phenodi Prif Swyddog Gweithredu ym mis Awst 2011, mae newidiadau i bortffolios uwch reoli bellach wedi cael eu hymgorffori'n glir o fewn yr uwch dîm rheoli. Ymhlith yr egwyddorion allweddol mae dwyn timau cyfarwyddiaethau yn agosach at y tîm gweithredol, gwella arweinyddiaeth glinigol, gwahanu swyddogaethau cyflawni a llywodraethu, ac integreiddio gwasanaethau'n well. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godais mewn blynyddoedd blaenorol ynghylch cydbwyso cyfrifoldebau, a rhai o'r materion a godwyd gan AGIC, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn arbennig ynghylch pryderon a chwynion cleifion. |
| Strwythurau pwyllgorau a rheoli perfformiad | Fel rhan o'i waith datblygu sefydliadol, ac mewn ymateb i adolygiad AGIC, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd fframwaith llywodraethu diwygiedig. Mae cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu yn ystod 2012 eisoes wedi cael ei drafod ym mharagraffau 38 i 42. Ymhlith y datblygiadau allweddol eraill mae:<br>• Gwahanu gwaith cyflawni gweithredol, gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am gyflawni, a gwaith monitro perfformiad yn glir. |

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| | • Mae'r broses 'dwyn i gyfrif' a ddechreuodd yn 2011 ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithio ar berfformiad llawer o Gyfarwyddiaethau, yn enwedig perfformiad ariannol, gyda llawer o Gyfarwyddiaethau'n cyflawni eu harbedion effeithlonrwydd angenrheidiol tra'n cynnal perfformiad yn erbyn targedau. Ategir hyn mewn Cyfarwyddiaethau sy'n tanberfformio gan gymorth ychwanegol gan dimau Trawsnewid a Swyddogion Gweithredu, gyda Phwyllgor Cyllid a Pherfformiad y Bwrdd yn gwneud gwaith craffu. |
| Cynllunio Gweithredol | Mae gwaith cynllunio gweithredol yn dal i aeddfedu, ac er na wnaeth fy ngwaith edrych ar hyn yn benodol yn 2012, nododd fy archwilwyr gynnydd ym maes integreiddio gwaith cynllunio gwasanaethau gweithredol â chynlluniau ariannol a chynlluniau'r gweithlu. Yn arbennig, ceir bellach gynlluniau uchelgeisiol i gyflawni newidiadau cynyddrannol a mantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, mae cynlluniau tymor canolig i gyflawni nodau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran sicrhau trawsnewid hirdymor cynaliadwy a chadw o fewn ei derfyn adnoddau; yn dibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad Cynllun De Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu cynlluniau tymor canolig o'r fath, ynghyd â llwybr gweithredu, ac mae'n bwriadu datblygu'r rhain yn 2013. |
| Cwynion, hawliadau ac ymgyfreitha | Codwyd pryderon gan Gronfa Risg Cymru, AGIC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod y Bwrdd Iechyd, cyn 2011, yn wynebu diffygion difrifol o ran y modd roedd yn ymateb i gwynion, pryderon ac ymgyfreitha ac yn eu rheoli. Yn 2012, edrychodd fy nhîm archwilio ar y trefniadau rheoli diwygiedig a roddwyd ar waith gan y Bwrdd i ymdrin â'r pryderon hyn. Nodwyd gweithdrefnau diwygiedig, canllawiau mewnol, a hyfforddiant staff ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r gweithdrefnau newydd yn rhoi pwyslais ar Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG a helpu'r sefydliad i ddysgu er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto. Mae prosesau craffu wedi gwella gydag Aelodau Annibynnol yn cadeirio paneli Pryderon a Gwneud Iawn am Gamweddau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn monitro'r broses o weithredu cynllun AGIC yn y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae hyn oll yn gynnydd cadarnhaol a rhoddodd Cronfa Risg Cymru sgôr gydymffurfio lawer gwell yn 2012 sef dros 70 y cant. Fodd bynnag, dim ond ar sail gwelliant parhaus o ran amseroldeb ymatebion y gellir asesu'r sefyllfa wirioneddol ynghylch p'un a yw hyn wedi mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd yn y gorffennol yn llawn; agweddau ac ymddygiad staff y Bwrdd Iechyd pan godir pryderon; a phan fydd pryder yn ddilys, y gwersi a'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto. Amser a ddengys a yw'r newidiadau hyn i drefniadau a diwylliant wedi cael eu hymgorffori mewn gwirionedd a bydd fy nhîm yn parhau i adolygu'r maes hwn yn 2013. |

Er bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth ac ymrwymiad clir mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i drawsnewid gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig, mae galw cynyddol, diffyg adnoddau a heriau parhaus i addysgu'r cyhoedd am y defnydd priodol o wasanaethau a hunanofal yn cyfyngu ar gynnydd

**57.** Mae adroddiadau blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2008 a 2009 wedi amlygu'r ffaith bod angen gwella agweddau allweddol ar wasanaethau gofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig. Yn ystod 2011 a 2012, cynhaliais raglen fanwl o waith archwilio dilynol ar gyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu ledled Cymru. Ystyriodd y gwaith hwn gynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau blaenorol, ond anelodd hefyd at feithrin dealltwriaeth newydd o'r ffactorau atal a galluogi sy'n effeithio ar gynnydd yn lleol. Gan fod nifer o ryngberthnasau allweddol rhwng cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu, gwnaed y gwaith fel un adolygiad integredig.

**58.** O fewn Cwm Taf, ceir galw cynyddol am ofal heb ei drefnu ac mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn dal i fod dan bwysau sylweddol. Mae niferoedd cynyddol yn mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys a cheir niferoedd cymharol lai o staff na byrddau iechyd eraill. Er gwaethaf nifer o gamau cadarnhaol i reoli'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, nid yw gwelliannau yn erbyn targedau yn amlwg. Yn arbennig, bu perfformiad yn erbyn y targed o bedair awr ar gyfer amseroedd aros i gleifion adrannau damweiniau ac achosion brys yn gyson wael. Yn ogystal, mae llawer o gleifion sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ambiwlans yn aros llawer rhy hir i gael eu trosglwyddo i ofal staff ysbyty.

**59.** Mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau ei ddibyniaeth ar y sector acíwt i reoli cyflyrau cronig ac mae wedi gwneud mwy o gynnydd na'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran atgyfnerthu'r ffordd y mae'n ceisio cefnogi pobl yn y gymuned ac atal defnydd diangen o ysbytai. Ymhlith y camau sy'n cael eu cymryd mae ffyrdd newydd o nodi unigolion sy'n wynebu risg o gael eu derbyn i'r ysbyty i gael gofal heb ei drefnu a'u cefnogi yn y gymuned; ac ailgynllunio gwasanaethau a buddsoddi ynddynt er mwyn newid lleoliad gofal o'r ysbyty i'r gymuned. Er bod y Bwrdd Iechyd a rhai meddygfeydd yn cymryd camau cadarnhaol i wella mynediad i gleifion yn ystod oriau craidd, mae'r galw am wasanaethau y tu allan i oriau ar gynnydd ac nid yw'r rhesymau yn glir eto. Mae contractau gofal sylfaenol hefyd yn cael eu defnyddio i helpu cleifion â chyflyrau cronig ac anghenion gofal heb ei drefnu. Fodd bynnag, er gwaethaf camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, yr ymddengys eu bod yn dwyn ffrwyth, mae cyfraddau derbyn lluosog a hyd arhosiad ar gyfer rhai cyflyrau cronig yn dal i fod uwchlaw'r targed.

**60.** Hyd yn hyn, prin fu llwyddiant y Bwrdd Iechyd o ran newid y ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau: ymddengys nad yw'r ymgyrch 'Dewis Doeth' wedi cael fawr o effaith hyd yn hyn a megis dechrau y mae cynlluniau ar gyfer canolfan gyfathrebu i gyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir. Er bod y cymorth sydd ar gael ar gyfer addysgu cleifion a hunanofal wedi gwella, mae cyfraddau dilyn a chwblhau rhaglenni hunanofal dynodedig yn dal i fod yn llawer rhy isel.

**61.** Wrth edrych ymlaen, nodais fod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer rheoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu, a ategir gan drefniadau llywodraethu diwygiedig ac ymrwymiad clir i weithio mewn partneriaeth. Bydd y gwaith o gyflawni'r weledigaeth honno'n llwyddiannus yn dibynnu ar ymgysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol a bod yn eglur o ran cynllunio gwasanaethau. Mae trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer rheoli cyflyrau cronig a gofal heb ei drefnu bellach ar waith ac rwyf wedi nodi gwaith Bwrdd Gweithredu Pennu'r Cyfeiriad. Ochr yn ochr ag ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i feithrin partneriaethau cryf â rhanddeiliaid allweddol deuthum i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd bellach mewn sefyllfa well i gyflawni'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

## Gwelir peth cryfder ym maes rheoli'r gweithlu, ond erys heriau allweddol o ran salwch, staff meddygol a datblygu cynlluniau gweithlu hirdymor sy'n gynaliadwy yn ariannol er mwyn cefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau

**62.** Roedd fy Asesiad Strwythuredig yn cynnwys archwiliad o waith cynllunio'r gweithlu fel ffactor allweddol sy'n galluogi newidiadau a gwelliannau i wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd ati i gynllunio'r gweithlu yn y tymor canolig mewn modd pragmataidd heb fod cynlluniau trawsnewid gwasanaethau cytûn ar gael, tra'i fod yn aros am ganlyniad y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori sydd ynghlwm wrth Gynllun De Cymru.

**63.** Ceir rhai cryfderau ym maes rheoli'r gweithlu ac mae proses gadarn ar waith i werthuso pob swydd wag cyn ei chymeradwyo. Nododd fy archwilwyr fod y broses hon yn digwydd yn gyflym, ymhen wythnos, ac mae'n ystyried diogelwch cleifion a chyfleoedd i ailgynllunio'r gweithlu. Mae'r gwaith o gyflwyno Cofnod Staff Electronig bellach wedi cael ei gwblhau ac roedd y camau pwyllog a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd o fudd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wrthi'n cyflwyno meddalwedd e-roster, sy'n datgelu anghysondebau ac yn herio tybiaethau ar lefel weithredol, ond disgwylir i hyn sicrhau bod lefelau diogel a phriodol o staff ar gael ym mhob maes clinigol. Fodd bynnag, erys nifer o flaenoriaethau heriol, gan gynnwys:

- mynd i'r afael â chynaliadwyedd staff meddygol, o ystyried yr anawsterau parhaus i recriwtio staff meddygol i arbenigeddau acíwt allweddol fel adrannau damweiniau ac achosion brys, a'r her debygol sydd ar y gorwel mewn gofal sylfaenol, wrth i lawer o feddygon teulu nesáu at oedran ymddeol;
- mae lefelau salwch staff yn dal i beri problem ac er gwaethaf nifer o fentrau a chynnydd addawol yn 2011, cynyddu a wnaeth lefelau salwch staff unwaith eto, ac mae'n dal i fod uwchlaw'r targed ar 5.67 y cant;
- paratoi rheolwyr i arwain y newid cymhleth i'r gweithlu sydd ei angen er mwyn cefnogi'r gwaith o symud gofal i leoliadau cymunedol a gweithredu Cynllun De Cymru sydd ar y gweill.

**64.** Mae'r dull pragmataidd hwn o gynllunio'r gweithlu o fewn blwyddyn a'r cydweithio agos mewn perthynas â fframweithiau cynllunio yn annog perchenogaeth weithredol o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Cydnabyddir pwysigrwydd cysylltu cynlluniau gwasanaeth, gweithlu a chyllid ond nid yw'r rhain wedi cael eu hintegreiddio'n gywir

eto ac ni chafwyd cydbwysedd ariannol o ran cynllun blynyddol y gweithlu eleni a nodir bod tensiynau'n parhau rhwng gwneud arbedion ariannol a buddsoddi at y dyfodol.

### Mae ymrwymiad cadarn a dull rhagweithiol, wedi'i reoli'n dda, o gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid i'w gweld a rhydd sail gadarn dros gyflawni'r newidiadau sylfaenol i wasanaethau sydd eu hangen

**65.** Mae fy ngwaith eleni ar ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi nodi bod gan y Bwrdd Iechyd ymrwymiad sefydliadol cryf i ymgysylltu parhaus. Mae aelodau gweithredol ac annibynnol yn rhoi cryn bwyslais ar fforymau ymgysylltu rheolaidd a hirsefydledig ac yn 'buddsoddi' cryn amser ac egni ynddynt ym mhob un o'r pedair ardal. Cefnogir hyn gan dimau cyfathrebu a phrofiad cleifion effeithiol sy'n defnyddio ystod eang o ddulliau o ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a phartneriaid. Cyfrannwr pwysig arall yw'r gydberthynas waith adeiladol â'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r defnydd o gymorth 'arbenigol' i adolygu cynlluniau a helpu i gasglu a dadansoddi barn ymgysylltu.

**66.** Dilynodd y Bwrdd Iechyd y fath drywydd yn llwyddiannus i ymdrin yn effeithiol â'r newid i wasanaethau iechyd meddwl. Yn sgil y profiad ymgysylltu hwn, dysgodd y Bwrdd Iechyd fod cynnwys uwch glinigwyr a chael deialog agored a thryloyw yn helpu rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach i ddeall yr angen am newid. Mae wedi datblygu dull cydgysylltiedig, a ystyriwyd yn ofalus, o ymgysylltu ynghylch newidiadau mawr i wasanaethau. Mae'r gwaith hwn yn sylfaen da, ond ymgynghoriad ffurfiol ar opsiynau, costau ariannol a newidiadau dilynol i'r gweithlu yw'r brif her a wynebir o hyd yn 2013.

### Mae tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu argymhellion o waith archwilio perfformiad blaenorol

**67.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae fy nhîm archwilio wedi cadw golwg ar y cynnydd a wnaed i ymdrin â phryderon a'r argymhellion a ddeilliodd o waith archwilio blaenorol mewn meysydd gwasanaeth penodol. Cyflawnwyd hyn drwy adolygu adroddiadau cynnydd ffurfiol i'r Bwrdd a phwyllgorau eraill a thrwy gysylltu â rheolwyr gweithredol y Bwrdd Iechyd. Rwyf wedi crynhoi canfyddiadau allweddol o asesiadau strwythuredig blaenorol yn Arddangosyn 3 ac mae'r adolygiad cyfunol o ofal heb ei drefnu a rheoli cyflyrau cronig yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd tuag at ymgorffori argymhellion yn ei ffrydiau gwaith. Hefyd, nodais gynnydd o ran effeithlonrwydd theatrau llawdriniaethau a llawdriniaethau dydd drwy gydol y flwyddyn, a gynhwyswyd ar y dangosfwrdd perfformiad, ynghyd â gwaith craffu rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad wedi'i ategu gan gymorth oddi wrth y Tîm Trawsnewid a Thîm y Prif Swyddog Gweithredu.

**68.** Caiff fy ngwaith dilynol sy'n weddill, gydag ymchwiliadau penodol gan fy nhîm archwilio, ei gwblhau yn ystod chwarter cyntaf 2013 a chaiff ei drafod yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Awst 2012 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Cyfunol o ofal heb ei drefnu, cyflyrau cronig ac ymgysylltu clinigol | Gorffennaf 2012 |
| Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys archwilio gwybodaeth reoli, Caldicott, ansawdd data, cynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd | Tachwedd 2012 |
| Atal a chanfod twyll ym maes gofal sylfaenol | Mawrth 2013 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Mawrth 2012 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 | Ionawr 2013 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith. Mae amserlen y gwaith hwn yn adlewyrchu trafodaethau gydag arweinwyr y Bwrdd Iechyd ar gyfer pob pwnc.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Maeth ac Arlwyo mewn Ysbytai - Adolygiad Dilynol | Ionawr 2013 |
| Theatrau Llawdriniaethau - Adolygiad Dilynol (wedi'i ganslo gan ailddyrannu'r gyllideb i adolygiad dilynol ar Staffio Wardiau) | dim |
| Contractau Meddygon Ymgynghorol - Adolygiad Dilynol | Mawrth 2013 |
| Staffio Wardiau - Adolygiad Dilynol | Ebrill 2013 |
| Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol | Mai 2013 |
| Orthopedeg | Medi 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £453,032 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad. Fel y nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad, £6,894 oedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
| --- | --- |
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |